# Cyngor Cymuned Llangelynnin Community Council

## Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd Nos Fercher - 14.02.24 - 7yh yn Y Ganolfan, Llwyngwril

**Presennol:** David Griffiths - Cadeirydd (DG), Geraint Edwards – Is Gadeirydd (GE), Huw Davies (HD), Ian Williams (IW), Keith Carroll (KC), Jane Jenkins (Clerc).

1. **Croeso'r Cadeirydd**: Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.
   **Datgan Diddordeb: Dim**

2. **Ymddiheuriadau:** Jane Lawrence, Geraint Micah, Nikki Roberts, Louise Hughes, Jen Warne, Meg Griffiths.

3. **Cymeradwyo Cofnodion y Cyfarfodydd Diwethaf:** cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar **13.12.23**
   Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod yma yn gywir, ac eithrio un gwelliant o dan faterion ariannol, (pwynt c) – lle roedd gair wedi'i adael allan. Gofynnwyd i JJ newid y copi teipiedig fel ei fod yn darllen yn gywir.
   **Cynnig: KC Eilio: GE Arwyddwyd: DG.**

   **Cymeradwyo cofnodion y Cyfarfod Arbennig ar y 10.01.24**: Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod yma yn gywir.
   **Cynnig: GE Eilio: HD Arwyddwyd: DG.**

4. **Materion yn codi o'r Cofnodion Blaenorol -** 13/12/23 a 10/01/24:
   **a) Hawl Tramwy/Ffordd Ddiddosbarth (Sunbeach)** – cadarnhaodd JJ nad oedd ymateb wedi ei dderbyn i'r e-bost a anfonwyd ym Mis Tachwedd. Cytunodd pawb y dylid anfon e-bost arall i gael ymateb.

   **b) Cais Cynllunio NP/69/56M (Sunbeach)** – cadarnhaodd JJ ei bod wedi cael gwybod gan Sally Manning bod y mater wedi ei ohirio ymhellach, gan fod adroddiadau yn dal heb eu penderfynu. Mae'n deall y gallai fod yn ddiwedd Mis Chwefror pan fydd y cais yn cael ei drafod yn y cyfarfod cynllunio nesaf y Parc Cenedlaethol Eryri.

   **c) Ceg yr Afon Llwyngwril** – cadarnhaodd JJ fod e-bost wedi ei anfon i Gyngor Gwynedd yn gofyn os oeddynt yn barod i gyfrannu yr un faint a'r tro diwethaf, gyda'r Cyngor Cymuned i ariannu gweddill y prosiect. Doedd dim ateb wedi ei ddebyn hyd yma.
   Cytunwyd i adolygu'r sefyllfa ac i drafod ymhellach yng nghyfarfod Mis Mawrth. JJ a HD i edrych ar y fanyleb.

   **d) Praesept:** Cadarnhaodd JJ fod y cais wedi'i gyflwyno a'i gydnabod.

5. **Gohebiaeth wedi eu derbyn:**
   a) **Ipad Diffibriliwr** – Angen bod holl aelodau y Cyngor Cymuned yn bresennol i drafod y mater yma, felly cytunwyd i'w drafod yn y cyfarfod nesaf ym Mis Mawrth. JJ i gydnabod yr e-bost.
   b) **Dŵr Cymru/Afon Gwril** – Mewn perthynas â'u diweddariad diweddaraf (30/12/23) - JJ i ysgrifennu yn ôl at Dwr Cymru i ofyn os y gellir trefnu cyfarfod safle ger y llwybr cyhoeddus i gael archwiliad iawn or sefyllfa yn yr Afon Gwril, cyn bod unrhyw waith yn cychwyn, oherwydd pryderon am lifogydd**.**

6. **Materion Cynllunio:**

   - **NP5/69/LB157H a NP5/69/113X – Llanfendigaid, Rhoslefain:** dim sylwadau na gwrthwynebiad.
     Gadawodd DG y cyfarfod oherwydd buddiant personol. Ffurflen Hysbysiad wedi'i llofnodi gan DG.
     (Hysbysiad yn ymwneud â Datgan Diddordeb arall ar y 10/01/24 wedi ei lofnodi hefyd gan DG (oherwydd nad oedd ffurflen ar gael yn yn cyfarfod ar y pryd).

- **NP5/69/LB18F – Yr Hendre (Hendre Hall), Llwyngwril**: Amlygodd IW fater a oedd ef wedi sylwi ar y ffurflen gais oedd dan y teitl - "**Disgrifiad o'r Cynnig**" – roedd y dyddiad dechrau y gwaith a dyddiad cwblhau y gwaith yr un fath – roedd hyn wedi ei nodi gan y Cynghorwyr eraill hefyd.
Adroddodd IW fod "Siop y Fferm" yr Hendre wedi agor ym **Mis Ebrill 2023** ac felly roedd yn teimlo bod y ffurflen gais yn anghywir. **Gofynnwyd i JJ cysylltu â'r Parc Cenedlaethol Eryri a thynnu eu sylw at y sylwadau yma.**

7. **Adroddiad Ariannol:**
   a. **Adroddiad Ariannol Ionawr 2024** – Cytunwyd bod hwn yn gyfrif cywir ac fe'i cymeradwywyd.
   **Cynnig: IW Eilio: HD Arwyddwyd: DG.**

   b. **Taliadau** – 3 siec i'w harwyddo: Tâl y Clerc, treth incwm HMRC, a rhent 2023 ar gyfer Y Ganolfan.

8. **Adroddiadau gan y Cynrychiolwyr**: Dim

9. **Adroddiad y Cynghorydd Sirol**: Dim

10. **Unrhyw Fater Arall:**
    - **Rhoddion Blynyddol**: Ceisiadau am gyfraniadau ariannol wedi ei rhoi gerbron aelodau y Cyngor Cymuned. Cutunwyd rhoi rhoddion i'r Ganolfan, Mynwenti yr Eglwysi Llwyngwril, Ambiwlans Awyr Cymru, SSAFA, Ysgol Craig y Deryn, Urdd Gobiath Cymru a Cerebral Palsy. Sieciau wedi'u llofnodi i alluogu JJ i'w talu.

    - **Prisiau ar gyfer torri gwair y Llwybrau Cyhoeddus/Cae Chwarae/Cof Golofn** – JJ i chwilio am gontractwyr lleol newydd yn fodlon rhoi dyfynbrisiau, yn ogystal ag ein contractwyr presennol.
    JJ i anfon manylion y contracts i'r rhai sydd â diddordeb yn y gwaith.

    - **Sedd Arosfan Bws** – Dim gweithred pellach ar hyn o bryd. Cadarnhaodd JJ eu bod yn aros am fwy o wybodaeth yn dilyn ymholiadau DG.

    - **Hysbysfwrdd Rhoslefain** – JJ i edrych ar-lein am hysbysfyrddau plastig wedi'i ailgylchu (yn edrych fel pren), yr un maint ag sydd yno ar hyn o bryd. JJ i adrodd yn ol yn y cyfarfod nesaf ym Mis Mawrth.

    - **Gliniadur Newydd** – JJ i wneud ymholiadau ynglŷn â'r hyn sydd ar gael ac sy'n addas ar gyfer ein gofynion.

    - **Ffordd o Lwyngwril i Friog a'r Wal Derfyn :** DG yn dymuno i lythyr gael ei anfon i Gyngor Gwynedd ynglŷn â'r system flaenoriaeth un ffordd, sydd mewn lle yma ar hyn o bryd, ar y ffordd gul rhwng Llwyngwril a Friog a sut mae Adran Briffyrdd Cyngor Gwynedd yn rhagweld y bydd yn gweithio'n ddiogel trwy dymor prysur yr hâf pan fo traffig yn llawer trymach.

## Dyddiad y Cyfarfod Nesaf:- Nos Fercher – 13.03.24 - am 7 o'r gloch yn Y Ganolfan, Llwyngwril

**Arwyddwyd**
**Cadeirydd ……………………………………………………………………………………………………… Dyddiad ……………………………….**